Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyfarfod o'r Bwrdd
9 Gorffennaf 2013

Teitl y Papur	Adroddiad Cyflwr yr Amgylchedd yng Nghymru
Cyfeirnod y Papur:	Papur NRW B (O) 20.13
Papur wedi'i ysgrifennu gan:	Mike Evans

Pwrpas y Papur:	**Penderfyniad**
Argymhelliad:	Y dylid datblygu dull arbennig Cyfoeth Naturiol Cymru o gyflwyno adroddiadau, sy'n adlewyrchu hyd a lled buddion Cyfoeth Naturiol Cymru.
Penderfyniad sydd ei Angen:	Cymeradwyo cwmpas, a'r dull arfaethedig, o gynhyrchu adroddiad newydd ar Gyflwr yr Amgylchedd yng Nghymru.

Effaith:	**Effaith ar yr Amgylchedd**: Bydd yr adroddiad yn darparu dull i Gyfoeth Naturiol Cymru allu asesu ei effaith ei hun ac effaith eraill ar yr amgylchedd, a helpu i dargedu gweithredoedd er mwyn rheoli effaith. **Effaith ar yr Economi**: Dylai'r adroddiad ddangos beth yw effaith amgylchedd Cymru ar yr economi drwy reoli ein hadnoddau naturiol. **Effaith ar Gymuned**: Bydd yr adroddiad yn cyfleu gwybodaeth am yr amgylchedd mewn ffordd hygyrch, ac yn rhoi mynediad i ddata i'w ddefnyddio gan y cyhoedd. Gall hefyd roi gwybod am weithgareddau gwyddoniaeth i ddinasyddion lle gall aelodau'r cyhoedd gyfrannu at y sylfaen dystiolaeth. **Effaith ar Wybodaeth**: Bydd yr adroddiad yn gweithio'n bennaf i ddechrau gyda data presennol sy'n cael ei gasglu'n rheolaidd, ond bydd yn ysgogi datblygiad gwybodaeth newydd lle bydd angen, er enghraifft, dangosyddion newydd. Bydd yr adroddiad hwn cofnodi ac yn olrhain cynnydd gyda Chynllun Corfforaethol Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mater

1. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu darparu tystiolaeth ysgogol ar gyfoeth naturiol Cymru a fydd yn dylanwadu ar gael canlyniadau gwell i gymunedau, yr economi a'r amgylchedd yng Nghymru.

2. Mae gennym gyfle i ddwyn ynghyd yr amryw adroddiadau ar agweddau o'r amgylchedd y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu cyhoeddi ac i gyfuno hyn ag amrywiaeth eang o dystiolaeth o ffynonellau eraill. Gallem hefyd gyfuno hyn â chyhoeddi adroddiadau ar ein gweithgareddau mentergarwch a'u cyfraniad at yr economi, ein cyfraniad tuag at wella'r sylfaen wybodaeth, a'r defnydd cynaliadwy o gyfoeth naturiol Cymru.

3. Rydym am osod y llinell sylfaen ar gyfer ein Cynllun Corfforaethol cyntaf fel y gellir dangos y canlyniadau a gyflawnwn drwy ein gwaith ym mhob cylch cynllunio corfforaethol y rhoddwn ar waith.

Crynodeb

4. Mae'r papur hwn yn cynnig y dylid cynhyrchu adroddiad ar Gyflwr yr Amgylchedd sydd â phersbectif eang ar yr amgylchedd (gan gynnwys elfennau cymdeithasol ac economaidd) yn unol â chylch gwaith llawn Cyfoeth Naturiol Cymru.

Cefndir

5. Yng nghyfarfod y bwrdd y mis Mai, gwnaeth y bwrdd gais y dylid cynhyrchu adroddiad ar gyflwr yr amgylchedd i osod llinell sylfaen ar ddechrau bodolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ac i ddarparu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer ein Cynllun Corfforaethol cyntaf. I gefnogi'r broses o ddatblygu Cynllun Corfforaethol, rydym wedi cynhyrchu crynodebau o dystiolaeth ar gyflwr yr amgylchedd sy'n gysylltiedig â chanlyniadau hirdymor Llywodraeth Cymru.

6. Mewn blynyddoedd diweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Adroddiad ar Gyflwr yr Amgylchedd i Gymru, yn seiliedig ar gyflwyno dangosyddion sy'n gysylltiedig â'i Strategaeth ar yr Amgylchedd. Cyn hyn, roedd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru yn cynhyrchu nifer o adroddiadau o'r fath ar gyflwr yr amgylchedd, yn fwyaf diweddar yn 2003 a, chyn hynny, ym 1999.

7. Yn ogystal ag adroddiadau wedi'u nodi'n amlwg yn rhai 'cyflwr yr amgylchedd', mae nifer o adroddiadau eraill yn darparu gwybodaeth am gyflwr un neu o fwy o elfennau o'r amgylchedd. Tra bo rhai o'r rhain yn cael eu cynhyrchu ar lefel Prydain Fawr neu'r DU, maent yn gynyddol yn ceisio cyflwyno gwybodaeth yn ôl gwledydd e.e. mae Charting Progress 2 (adroddiad ar gyflwr moroedd y DU a gyhoeddwyd

yn 2010) yn cynnwys cyfres o bersbectifau rhanbarthol; mae'r Asesiad Cenedlaethol o Ecosystemau (2011) yn cynnwys pennod ar Gymru; a chyhoeddodd Countryside Survey adroddiad ar wahân ar gyfer Cymru (2009).

8. Ar 22 Mai 2013, cyhoeddodd grŵp o sefydliadau cadwraeth ac ymchwil adroddiad ar Gyflwr Natur yn y DU a chrynodebau cysylltiedig ar lefel gwledydd.

9. Mae adroddiad y DU yn cyflwyno tystiolaeth am gyflwr dros 3,000 o rywogaethau. Yn ogystal â'r pennawd bod 60% o'r rhywogaethau a aseswyd yn gostwng, mae'r adroddiad yn amlygu'r achos mai dim ond amcangyfrif o 5% o'r holl rywogaethau yn y DU y gellid eu hasesu, oherwydd bod prinder data addas.

10. Mae'r crynodeb cysylltiedig ar gyfer Cymru hefyd yn tynnu sylw at y nifer gyfyngedig o rywogaethau yr oedd yn bosibl eu hasesu, ac mae'r prinder data yma hyd yn oed yn fwy: "…we simply don't have sufficient knowledge to make a robust, quantitative assessment of the state of nature in Wales".

11. O ystyried pa mor denau yw'r crynodeb ar gyflwr natur yng Nghymru, mae'r cwestiwn hwn yn codi: a yw'n bosibl cael adroddiad mwy cynhwysfawr? Ac yn gysylltiedig â hyn y mae'r cwestiwn ynghylch a ddylid adrodd ar gyflwr rhywogaethau fod yn elfen o adroddiad rheolaidd ehangach ar gyflwr yr amgylchedd yng Nghymru.

<u>Cynigion</u>

12. Dylid cyhoeddi adroddiad ar gyflwr yr amgylchedd gan Gyfoeth Naturiol Cymru ochr yn ochr â'r amrywiaeth o ddeunydd a gyhoeddir eisoes. Un ddadl dros gynhyrchu adroddiad ar gyflwr yr amgylchedd yw y byddai'n dwyn ynghyd, mewn un lleoliad a gaiff ei ddiweddaru'n rheolaidd, y prif ganfyddiadau o ddeunydd gwasgaredig o'r fath. Dylai'r adroddiad fod yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth wrth ddatblygu a dilyn cynnydd Cynllun Corfforaethol Cyfoeth Naturiol Cymru.

13. Mae angen rhoi gogwydd Cyfoeth Naturiol Cymru amlwg ar yr adroddiad i wahaniaethu rhyngddo ac adroddiadau eraill. Cynigir y dylid cyflawni hyn drwy adlewyrchu ehangder a natur ryngberthynol gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru, a thrwy gynnwys gwerthusiadau o effeithiolrwydd gweithrediadau Cyfoeth Naturiol Cymru (gweler Atodiad 1 i weld darlun o sut y gellid cyflawni hyn).Bydd y cwmpas eang hwn yn golygu y bydd yn rhaid defnyddio amrywiaeth eang o fathau o ddata, heb eu cyfyngu i'r data amgylcheddol traddodiadol, ond gan ddefnyddio tystiolaeth economaidd-gymdeithasol, er enghraifft, yn ogystal â gwybodaeth a ddefnyddir yn fwy cyffredinol mewn adroddiadau a chyfrifon blynyddol corfforaethol.

14. Mae amrywiaeth o opsiynau ar gael, o'r copi caled traddodiadol a gynhyrchir bob ychydig o flynyddoedd i ddull blynyddol mwy syml o gyflwyno dangosyddion. Gellir diweddaru adroddiad sy'n seiliedig ar ddangosyddion yn aml, ac mae'n debygol y bydd angen llai o adnoddau i'w gynhyrchu, ond gallai ymddangos yn sych. Cynigir cael dull canolradd gyda chraidd o ddangosyddion, wedi'i atodi gyda thestun deongliadol a chrynodeb blynyddol o dystiolaeth newydd nad yw wedi'i chwmpasu gan y dangosyddion fel cyfaddawd priodol. Trefnir diweddariadau a chyfuniadau i ateb gofynion yr amserlen cynllunio corfforaethol.

15. Dylid archwilio cyflwyno adroddiad ar y we. Mae hyn yn cynnig ystod o fuddion posibl, gan gynnwys:
    - dull o gyflwyno gwybodaeth mewn ystod o fformatau ac arddulliau ar gyfer cynulleidfaoedd penodol;
    - dull hawdd o ddiweddaru gwybodaeth - gellid gweld yr adroddiad fel system fyw (gyda'r potensial ar gyfer awtomeiddio rhai elfennau, yn amodol ar gael dulliau rheoli a systemau data priodol);
    - dolenni i ddata, neu ddata wedi'i lawrlwytho, a deunydd perthnasol arall.

16. Dylid mabwysiadu dull fesul cam wrth gynhyrchu'r adroddiad, gan ddechrau gyda'r wybodaeth sydd ar gael yn hawdd ac y mae mesurau wedi'u sefydlu ar ei chyfer, ac yna drwy ychwanegu ati dros amser wrth i fesurau newydd gael eu datblygu. Bydd yr amrywiol safbwyntiau ar yr amgylchedd sydd gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn cyflwyno heriau newydd, ac, mewn rhai meysydd, bydd angen datblygu mesurau newydd.

17. Dylai'r adroddiad ddefnyddio amrywiaeth eang o gyfresi data (gan gynnwys y rheiny a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad ar Gyflwr Natur), ac ni ddylid eu cyfyngu i'r data a gedwir gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae cyfle i wneud defnydd o'r trefniadau partneriaeth presennol, ac i ddatblygu partneriaethau newydd, i hyrwyddo'r broses o gyflwyno data addas, ac i ddatblygu mesurau pwrpasol.

18. Gofynnir i'r Bwrdd drafod y dull a gynigir ar gyfer datblygu ein hadroddiad, ac i gytuno arno.

<u>Camau nesaf</u>

19. Sefydlu cynllun, tîm a strwythur rheoli ar gyfer y prosiect. Nodi adnoddau a'r amserlen.

20. Cytuno ar fframwaith sy'n adlewyrchu hyd a lled buddion Cyfoeth Naturiol Cymru.

21. Trafod yr adroddiad gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau nad yw'n cael ei weld fel rhywbeth sy'n cystadlu yn erbyn eu hadroddiad ar Gyflwr yr Amgylchedd, neu'n ei ailadrodd.

Risgiau

22. Mae cynhyrchu'r adroddiad yn golygu defnyddio nifer anghymesur o adnoddau. Gellid ymdrin â hynny drwy gydweddu a'r dull gyda'r adnoddau sy'n debygol o fod ar gael.

23. Mae adroddiad sydd wedi'i seilio'n ormodol ar ddangosyddion yn cael ei ystyried yn sych ac mae'n methu â denu cynulleidfa allanol. Gellid ymdrin â hynny drwy gael adroddiad sy'n cynnwys dangosyddion fel cydran, ond sydd hefyd yn cynnwys tystiolaeth arall hygyrch. Cynnwys staff cyfathrebu Cyfoeth Naturiol Cymru o'r cychwyn.

24. Nid oes digon o ddata ar gael i gyflwyno tueddiadau dibynadwy ar gyfer rhai elfennau pwysig. Gellid ymdrin â hynny drwy ddatblygu'r adroddiad dros amser, gan ddechrau gyda chyfresi data y mae tystiolaeth eu bod yn gadarn, a pharhau i weithio gyda phartneriaid i wella'r cyfresi hynny lle nad ydynt yn gadarn ar hyn o bryd.

25. Mae cyfyngiadau cyllido yn golygu nad yw monitro parhaus yn digwydd, ac felly ni ellir diweddaru'r adroddiad. Gellid ymdrin â hyn drwy ystyried ar y cychwyn y cyfresi data a'r rhaglenni hynny sy'n debygol o barhau. Parhau i weithio gyda chynlluniau allanol sy'n anelu at gynnal rhaglenni monitro hirdymor allweddol.

Goblygiadau ariannol

26. Bydd hyn yn dibynnu ar y llwybr a gaiff ei ddilyn. Mae'n debygol y bydd angen amser staff yn bennaf i ddechrau, er efallai y bydd angen cyllid ar rai elfennau.

Cyfathrebu

27. Dylid ystyried yr adroddiad fel rhan annatod o'n gweithgaredd cyfathrebu, sy'n berthnasol yn fewnol ac yn allanol. Dylai'r tîm cyfathrebu fod yn rhan o'r broses yn fuan i lywio'r adroddiad ac i helpu i ddatblygu cynllun cyfathrebu cysylltiedig.

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

28. Ddim yn berthnasol.

Mynegai o'r Atodiadau

Atodiad 1. Fframwaith ar gyfer adrodd ar yr amgylchedd

21.06.2013 FINAL

Atodiad 1: Fframwaith ar gyfer adrodd ar yr amgylchedd

Fel arfer, defnyddir dau fframwaith ar gyfer adrodd ar yr amgylchedd – y model PSR (Pwysau-Cyflwr-Ymateb) a fersiwn ehangach o hyn, sef y model DPSIR (Grymoedd Sbarduno-Pwysau-Cyflwr-Effeithiau-Ymateb). Mae'r model DPSIR yn addas ar gyfer cwmpasu hyd a lled llawn cylch gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru (gweler y darlun graffeg isod)



Source : Global International Water Assessment (GIWA), 2001 ; European Environmental Agency (EEA).

The DPSIR Framework – Y Fframwaith DPSIR
Driving forces – Grymoedd sbarduno
Socio-economic and socio-cultural….. – Grymoedd economaidd-gymdeithasol a chymdeithasol-diwylliannol yn sbarduno gweithgareddau dynol, sy'n cynyddu neu'n lliniaru'r pwysau ar yr amgylchedd
Pressures - Pwysau
Stresses which human activities… – Straen y mae gweithgareddau pobl yn ei roi'n uniongyrchol ar yr amgylchedd (er enghraifft, allyriadau llygredd)
Responses – Ymatebion

Responses by society… - Ymatebion cymdeithas i sefyllfa'r amgylchedd (cynhyrchu glân, trafnidiaeth gyhoeddus, rheoliadau, yr amgylchedd)
State of the Environment – Cyflwr yr Amgylchedd
The condition of the environment… - Cyflwr yr amgylchedd, asesu ansawdd yr aer neu'r dŵr, er enghraifft
Impacts – Effeithiau
The effects resulting from… - Effeithiau o ganlyniad i gyflwr yr amgylchedd, er enghraifft colli bioamrywiaeth, niwed economaidd

Ffynhonnell: Asesiad Dŵr Rhyngwladol Byd-eang (GIWA), 2001 Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop

Yn y cynllun hwn, mae grymoedd cymdeithasol, demograffig ac economaidd yn rhoi pwysau ar yr amgylchedd. Mae'r pwysau hyn yn effeithio ar yr amgylchedd ac mae hyn yn ymddangos yn ei gyflwr ar unrhyw adeg. Yn ei dro, mae hyn yn effeithio ar yr agweddau hynny ar yr amgylchedd y mae cymdeithas ddynol yn eu gwerthfawrogi, oherwydd sut y maent yn sail i les (e.e. drwy gyfrannu at iechyd dynol a chyfleoedd cyflogi). I reoli'r effeithiau hynny, gall cymdeithas ymateb drwy gymryd camau sy'n ymwneud ag unrhyw un o'r elfennau blaenorol, er enghraifft drwy geisio dylanwadu ar ymagweddau ynghylch yr amgylchedd (grym sy'n sbarduno), rheoli llygredd (pwysau), ailgyflwyno rhywogaeth (ac, felly, cyflwr yn newid), neu gynnwys ystyriaethau ynghylch tirwedd mewn penderfyniadau cynllunio (rheoli effaith ar ansawdd tirwedd).

Gallai adroddiad cul ar gyflwr yr amgylchedd gyflwyno gwybodaeth sy'n ymwneud yn unig â chyflwr yr elfen hon o'r fframwaith, gan roi cipolwg o'r amgylchedd ar un adeg mewn amser. Dylai dull llawnach o adrodd geisio mynd i'r afael â phob un o'r elfennau hyn mewn ffordd integredig, a dyma'r dull a argymhellir yma.

Nid awgrymir y dylai'r elfennau DPSIR hyn lunio sylfaen i strwythur unrhyw adroddiad, ond hytrach dylid defnyddio'r fframwaith ar gyfer unrhyw agwedd ar yr amgylchedd y mae'r adroddiad yn ei chynnwys (fel ansawdd dŵr neu fioamrywiaeth) i sicrhau ein bod yn darparu, nid yn unig darlun o'r cyflwr presennol, ond hefyd y ffactorau sy'n dylanwadu arno, asesiad o'r hyn y mae'n ei olygu (ymdrin â'r cwestiwn 'beth yw'r ots'), ac awgrym o'r hyn yr ydym ni ac eraill yn ei wneud amdano.

Mae elfen effaith y fframwaith yn rhoi pwyslais penodol ar oblygiadau newid amgylcheddol ar gyfer dynoliaeth, gan gynnwys iechyd dynol, er enghraifft – ac yn rhoi sail resymegol ar gyfer cyflwyno gwybodaeth o'r fath ochr yn ochr â gwybodaeth am ansawdd amgylcheddol.

Mae'r tabl isod yn dangos rhai enghreifftiau o'r mathau o fesurau sy'n gysylltiedig â gwahanol elfennau'r fframwaith (darperir cyfres o ddarluniau graffeg o rai o'r rhain ar ddiwedd y papur).

	Mesurau presennol	**Mesurau posibl**
GRYMOEDD	Mynegai amddifadedd lluosog	Ymagweddau

SBARDUNO	Dewisiadau hamdden	amgylcheddol Patrymau defnydd
PWYSAU	Nifer y digwyddiadau llygru sy'n effeithio ar ddŵr a'r tir Allyriadau sylffwr Tynnu dŵr	Newid mewn defnydd tir Afiechydon
CYFLWR	Ansawdd dŵr Poblogaethau adar sy'n bridio Poblogaethau eog	Rhagor o rywogaethau (o'r adroddiad Cyflwr Natur) Iechyd planhigion
EFFAITH	Ansawdd tirwedd Cynhyrchu pren Newidiadau i'r risg o lifogydd	Iechyd y ddynoliaeth Swyddi
YMATEB	Darn o dir wedi'i ddynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Darn o goedwig sydd wedi'i ddynodi'n gynaliadwy Darn o dir mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol Rheoli gwastraff	Addysg/ymgysylltu Buddsoddi yn yr amgylchedd

Dim ond ychydig o enghreifftiau yw'r rhain, a bydd cytuno ar gyfres gytbwys o fesurau o'r fath yn bwysig wrth ddatblygu'r adroddiad. Mae'n debygol y bydd heriau sylweddol wrth wneud hyn. Mae'n hawdd cael gafael ar rai mathau o wybodaeth nag eraill (er enghraifft, mae'n hawdd cyfrif nifer y safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig sydd wedi'u dynodi, ond mae'n anos sefydlu beth yw cyflwr y nodweddion ar y safleoedd hynny). Ar gyfer rhai meysydd, efallai y bydd llai o ddata ar gael nag y credir weithiau (mae'r adroddiad ar Gyflwr Natur yn awgrymu bod hyn yn wir am rywogaethau). Mewn rhai achosion, bydd cyfleoedd i ddefnyddio gwybodaeth ar gyfer datblygiadau newydd yn ein rhaglenni monitro — er enghraifft, drwy ychwanegu cwestiynau newydd i Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru sy'n ymwneud ag ymwybyddiaeth o'r amgylchedd.

Ymysg yr ymatebion cymdeithasol yn gyffredinol ceir y camau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu cymryd. Gallai rhai o'r rhain fod ar gyfer Cymru gyfan a gallant fod yn addas i'w cynnwys yn y cyfresi o ddangosyddion, fel y rhai a restrir uchod. Yn ogystal, bydd nifer fawr o brosiectau ac ymyriadau lleol nad ydynt mor addas i'w cynnwys. Byddai cydgysylltu gwybodaeth am effeithiolrwydd ymyriadau penodol gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn ychwanegiad gwerthfawr i'r broses adrodd yn fwy cyffredinol.

Enghraifft o ddangosydd ar ffurf darlun graffeg

Dangosydd grym sbarduno: Dewisiadau o ran ymweliadau awyr agored



Graphic 5: Changes in the types of places people visit – Darlun Graffeg 5: Newidiadau yn y mathau o leoedd y mae pobl yn ymweld â hwy

Significant increases – Cynnydd sylweddol

No significant changes – Dim newidiadau sylweddol

Significant decreases - Gostyngiadau sylweddol

Woodland – Coedwigoedd
Beach – Traethau
Hills/mountains – Bryniau/mynyddoedd
Farmland – Tir fferm
River, lake, canal – Afonydd, llynnoedd, camlesi
Other coastline – Darnau eraill o'r arfordir
Local park – Parciau lleol
Roadside pavement – Palmentydd ger y ffordd

Note: numbers relate to main destinations of visits taken in each survey year – Nodyn: mae'r niferoedd yn ymwneud â phrif gyrchfannau ymweliadau ym mhob blwyddyn arolwg

Welsh Outdoor Recreation survey 2011 – Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2011

Dangosydd pwysau: nifer y digwyddiadau llygredd a'r mathau ohonynt sy'n effeithio ar ansawdd dŵr, 2003-2012



Category 1 & 2 Pollution incidents by source affecting water quality in Wales - Digwyddiadau llygredd categori 1 a 2 sy'n effeithio ar ansawdd dŵr yng Nghymru

Number of incidents – Nifer y digwyddiadau

Not identified – Heb ei ganfod
Water Industry – y Diwydiant Dŵr
Waste Management – Rheoli Gwastraff
Transport – Trafnidiaeth
Service Sector – y Sector Gwasanaeth
Retail Sector – y Sector Manwerthu
Public Administration – Gweinyddu Cyhoeddus
Power Generation and Supply – Cynhyrchu a Darparu Pŵer
Natural Source – Ffynhonnell Naturiol
Manufacturing – Diwydiant Cynhyrchu
Domestic and Residential – Domestig a Phreswyl
Agriculture – Amaethyddiaeth

Source: EA NIRS – Ffynhonnell: EA NIRS

Dangosydd cyflwr: Cyfoeth rhywogaethau planhigion, 1978-2007



Year-based analysis of Native Species Richness of All Broad Habitats in All Plots in Wales – Dadansoddiad fesul blwyddyn o Gyfoeth Rhywogaethau Brodorol Pob Cynefin Eang ym Mhob Llain yng Nghymru.

Native Species Richness – Cyfoeth Rhywogaethau Brodorol

Upper limit of 95% confidence interval – Terfyn uchaf o 95% o ran cyfwng hyder

Lower limit of 95% confidence interval – Terfyn uchaf o 95% o ran cyfwng hyder

Estimate – Amcangyfrif

Dangosydd cyflwr (anfiotig): pH y pridd, 1978-2007



pH (0-15cm) in All Broad Habitats in Wales – pH (0-15cm) ym Mhob Cynefin Eang yng Nghymru

Year - Blwyddyn

Dangosydd effaith: Agweddau gweledol a synhwyraidd ar y dirwedd, 2013



Scenic quality – Ansawdd golygfaol
Integrity – Cyfanrwydd
Character – Cymeriad
Rarity – Prinder
Outstanding – Rhagorol
High – Uchel
Moderate – Canolig
Low – Isel
Unassessed – Heb ei asesu

Dangosydd ymateb: darn o dir o dan reolaeth amaeth-amgylcheddol



Area of Welsh farmland under agri-environment scheme management – Darn o dir fferm yng Nghymru o dan reolaeth cynllun amaeth-amgylcheddol

Million Hectares – Miliwn Hectar

Higher level schemes – Cynlluniau lefel uwch
Entry level schemes – Cynlluniau lefel mynediad